



BRITISH ACADEMY
OF FILM AND TELEVISION ARTS
Cymru

BAFTA YNG NGHYMRU YN CYHOEDDI ENWEBIADAU AR GYFER GWOBRAU CYMRU 2011 YR ACADEMI BRYDEINIG



Sian Williams a Jason Mohammad i gyflwyno yr 20fed Seremoni Gwobrau Cymru yr Academi Brydeinig mis Mai

- Pen Talar wedi ei enwebu ar gyfer 12
- Sherlock yn derbyn 6 enwebiad a 5 i The Indian Doctor
- Caryl Ebenezer o Rondo wedi ei henwebu 3 gwaith

Mae BAFTA yng Nghymru wedi cyhoeddi ei enwebiadau ar gyfer Gwobrau Cymru yr Academi Brydeinig i gydnabod y gorau ym myd darlledu, rhyngweithiol a ffilm yng Nghymru.

Eleni caiff 26 o gategoriâu crefft, perfformio a rhaglenni eu gwobrwyo. Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni arbennig yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar Fai 29ain. Rydym yn falch o gyhoeddi mai Sian Williams a Jason Mohammad fydd yn cyflwyno'r seremoni honno.

Dywed Jason: "Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr i gael cyflwyno'r seremoni gyda Sian eleni. Hwn fydd y tro cynta i mi gyflwyno'r Gwobrau - drwy weithio ochr yn ochr gyda chymaint o bobl broffesiynol, rydw i'n deall pa mor bwysig yw'r gwobrau yn cydnabod talent ar ac oddi ar y sgrin."

Mae cynyrchiadau drama yn dal i berfformio'n gryf eleni gyda Pen Talar - gynhyrwyd gan Fiction Factory i S4C - yn derbyn 16 o enwebiadau i gyd. Mae Sherlock, i'r BBC, yn derbyn 6 a The Indian Doctor yn derbyn 5. Mae rhaglenni dogfen a ffeithiol hefyd yn llwyddiannus. Yng nghategori'r Actores orau mae Mali Harries wedi derbyn 2 o'r 3 enwebiad - ar gyfer ei pherfformiadau yn Pen Talar a The Indian Doctor.

Dywed **Lisa Nesbitt**, Cyfarwyddwr BAFTA yng Nghymru:

"Mae wedi bod yn gyfnod heriol i nifer o fewn y diwydiant yng Nghymru a thu hwnt - rydym yn ymwybodol, mwy nag erioed, bod yn rhaid parhau i gydnabod rhagoriaeth a gwobrwo'r holl waith caled sy'n cael ei wneud wrth gynhyrchu a chreu ffilm a theledu."

Bydd cyflwyniadau arbennig yn cael eu gwneud yn y seremoni ar gyfer **Gwobr Siân Phillips** a **Gwobr Cyflawniad Oes**. Yr enwebiadau ar gyfer **Gwobr Gwyn Alf Williams** am y rhaglen neu gyfres orau sydd wedi cyfrannu fwyaf at ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o hanes Cymru yw **Y DAITH: O DDYFFRYN AERON I MADAGASCAR** (S4C), **VALE OF SORROW – THE SIX BELLS MINING DISASTER** (ITV WALES) ac **SNOWDONIA 1890** (BBC CYMRU WALES).

Mae BAFTA yng Nghymru yn hynod falch o gael cyhoeddi ei Noddwr Digwyddiad ar gyfer Gwobrau eleni. Cwmni cyflenwi adnoddau stiwdio ag OB yw NEP Cymru - cwmni newydd ond ag iddi wynebaw cyfarwydd. Rydym yn falch iawn o gael croesawu NEP Cymru i'n teulu o noddwyr ac yn edrych ymlaen at gydweithio gyda phawb yno i sicrhau mai Seremoni Wobrwo 2011 fydd y gorau cyn belled.

Bydd nifer cyfyngedig o docynnau ar gael i'r cyhoedd a gellir prynu'r rhain o swyddfa docynnau **Canolfan Mileniwm Cymru** ar **029 2063 6464**.

Gweler rhestr lawn o enwebiadau isod

Noddwyr BAFTA yng Nghymru 2011 :

Mae teyrngarwch ac ymroddiad ein partneriad a noddwyr yn chwarae rhan holl bwysig yn ymrwymiad BAFTA yng Nghymru i ragoriaeth. Ynghyd â'n noddwr digwyddiad newydd – **NEP Cymru**, hoffem gydnabod cefnogaeth **CREATIVE BUSINESS WALES , LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, CINEWORLD CINEMAS, ORCHARD MEDIA AND EVENT GROUP, ETHOS CREATIVE, CYNGOR CAERDYDD, MERCURE CARDIFF HOLLAND HOUSE HOTEL & SPA, ARCHIF GENEDLAETHOL SGRIN A SAIN CYMRU, AB ACOUSTICS, ELP LIGHTING, SILENT ARENA** ac **TATTINGER**. Hefyd, ein noddwyr **NEWYDD, THE BIG TALENT SCHOOL, PICTURE BOOTH** ac **AUTOGRAFFEG**.

Gyda diolch mawr i'r Darlledwyr: **BBC CYMRU WALES, ITV WALES, S4C**

Mae'n bleser gennym hefyd adnabod **Canolfan Mileniwm Cymru** fel ein **Man Cynnal Swyddogol**.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r Gwobrau cysylltwch â:

Fiona Lynch/Lois Jones, BAFTA yng Nghymru

Ffôn: **02920223898** Ffacs: 02920664189 / E-bost: awardscymru@bafta.org

Am ymholiadau'r wasg a chyfryngau cysylltwch â: **Manon Edwards Ahir**

Ffôn: **07711 095470** / E-bost: manon@mela-media.com

Mwy am BAFTA yng Nghymru:

Mae Academi Brydeinig Celfyddydau Ffilm a Theledu yng Nghymru yn cefnogi, datblygu a hyrwyddo ffurfiau celfyddydol y ddelwedd symudol drwy nodi a gwobrwo rhagoriaeth drwy Gymru - yn ysbrydoli ymarferwyr a chreu budd i'r cyhoedd. Am fwy o wybodaeth:

www.bafta.org/wales

DIWEDD//